



International Communication 2014 Project

Datganiad Cyffredinol o Hawliau Cyfathrebu

Cyfathrebu¹ yw'r mwyaf sylfaenol o alluoedd dynol. Mae pobl angen y gallu i gyfathrebu er mwyn cyflawni eu potensial cymdeithasol, addysgol, emosïynol a galwedigaethol.

Mae rhwystrau i gyfathrebu yn amharu ar allu unigolyn i:

- cysylltu a rhyngweithio gydag eraill;
- deall;
- dysgu, rhannu a rhoi gwybodaeth ar waith;
- sicrhau a chynnal iechyd corfforol a iechyd meddwl da;
- cymryd rhan mewn modd addas ac yn ddiogel mewn galwedigaethau pwrpasol a/neu weithgareddau hamdden; a
- chael mynediad teg i'r system cyfiawnder a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae'r cyfle i gyfathrebu yn hawl dynol sylfaenol. Mae gan bawb y potensial i gyfathrebu.

Yr ydym ni, a lofnododd islaw, drwy hyn yn ymrwymo i sicrhau fod pobl sydd ag anhwylderau cyfathrebu² yn derbyn cefnogaeth briodol. Rydym hefyd yn ymrwymo i sicrhau fod anabledd cyfathrebu³ yn derbyn sylw a gweithredu haeddiannol a phriodol gan bob corff a system perthnasol yn cynnwys:

- deddfwyr a gwneuthurwyr polisi;
- cyrff ariannu ac yswirwyr;
- sectorau meddygol, iechyd, addysg, anabledd, henoed a chymunedol;
- grwpiau defnyddwyr ac eiriolaeth;
- gofal cymdeithasol, cyfiawnder a gwasanaethau cyhoeddus; a
- y cyfryngau.

Adduned Gyhoeddus o Gefnogaeth

Cydnabyddwn fod y gallu i gyfathrebu yn hawl dynol sylfaenol.

Cydnabyddwn fod gan bawb y potensial i gyfathrebu.

Drwy roi ein henw ar y datganiad hwn, rhoddwn ein cefnogaeth i'r miliynau o bobl o amgylch y byd sydd ag anhwylderau cyfathrebu sy'n eu hatal rhag profi bywyd boddhaus a chymryd rhan gyfartal a llawn yn eu cymunedau. Credwn y dylai pobl gydag anabledau cyfathrebu gael mynediad i'r gefnogaeth maent ei hangen i wireddu eu potensial llawn.

Llofnodion

American Speech-Language-Hearing Association (Cymdeithas Lleferydd-Iaith-Clywed America)

Speech-Language and Audiology Canada (SAC) | Orthophonie et Audiologie Canada (OAC)

Irish Association of Speech and Language Therapists (Cymdeithas Therapyddion Lleferydd ac Iaith Iwerddon)

New Zealand Speech-language Therapists' Association (Cymdeithas Therapyddion Lleferydd-Iaith Seland Newydd)

Royal College of Speech and Language Therapists (Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith)

Speech Pathology Australia (Patholeg Lleferydd Awstralia)

Royal College of Speech and Language Therapists

Speech Pathology Australia

Ymunwch â ni!

Ychwanegwch gefnogaeth eich sefydliad i'r achos yma drwy lofnodi. Cysylltwch â ni yn info@communication2014.com. Gallwch hefyd roi adduned personol o gefnogaeth ar-lein yma.

¹Cyfathrebu yw cyfnewid gwybodaeth ac ystyr rhwng dau neu fwy o bobl. Mae'n ymwneud â llefaru, siarad, clywed, gwranddo, mynegi, dealltwriaeth, sgiliau cymdeithasol, darllen, ysgrifennu a defnyddio ystum, edrychiad, symbolau ac arwyddion.

²Mae anhwylder/au, yn unol â Dosbarthiad Rhyngwladol Gweithrediad, Anabledd a Iechyd (ICF) yn cyfeirio at yr amhariad(au) a chyflyrau sy'n achosi'r amhariad(au).

³Gall Anabledd/Anabledau fod yn ganlyniad anhwylder, yn dibynnu ar ffactorau cyd-destunol personol ac amgylcheddol. Mae anabledd yn cyfeirio at effaith gronns amhariadau person (neu anhwylderau), y cyfyngiadau ar eu gweithgaredd a chyfranogiad a ffactorau cyd-destun (h.y. amgylcheddol a phersonol). Gellir defnyddio anabledd cyfathrebu neu bobl gydag anabledau cyfathrebu i gyfeirio at unigolion sy'n profi problemau cyfathrebu sy'n effeithio ar eu gallu i gymryd rhan gyfartal a llawn mewn weithgareddau bob dydd.